# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2016

Amser: 09.06 - 10.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3390

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-04-681 Caniatáu i'r Cyhoedd Recordio Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ymateb y deisebydd er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor nesaf ystyried y ddeiseb ymhellach.

## 2.2 P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a:

- nododd fod y Gweinidog wedi ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor eto ar ôl iddo gael cyngor gan y rhwydwaith diabetes pediatrig i Gymru gyfan:
- cytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn pam ei fod wedi dod i'r casgliad bod diagnosis prydlon unwaith y mae unigolyn yn dangos arwyddion o ddiabetes math 1 yn ddull mwy effeithiol a hefyd gofyn a fyddai ef neu ei swyddogion yn barod i gwrdd â'r deisebydd;
- cytunodd i ofyn am bapur ymchwil ar ddull pob bwrdd iechyd i brofi am ddiabetes math 1 ymysg plant a phobl ifanc; a
- chytunwyd i ofyn i'r Pwyllgor Iechyd nesaf a fyddent yn ystyried cynnwys y mater hwn ar ei flaenraglen waith ar gyfer y 5$^{ed}$ Cynulliad.

## 2.3 P-04-683 Coed mewn Trefi

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i:

- aros am sylwadau pellach gan y deisebydd a gofyn i'r Pwyllgor nesaf ystyried y ddeiseb ymhellach pan fydd ar gael;
- tynnu sylw'r deisebydd at y paragraff olaf yn ymateb y Gweinidog, lle mae'n awgrymu y gallent gysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu manteision plannu trefol a choed cymunedol a'u helpu i gyflwyno ceisiadau am gyllid at y diben hwn, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

### 2.4 P-04-684 Galwn am Ddeddfwriaeth Cynllunio Well a Mwy Effeithiol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth ac am Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd Newydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddo ymateb i sylwadau pellach y deisebydd.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n gefnogwr cofrestredig ymgyrch Achub Ysgolion Powys ac yn cymryd rhan weithgar yn un o'i his-ymgyrchoedd.

Datganodd Russell George y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ei sylwadau ar y wybodaeth ychwanegol a chwestiynau a godwyd gan y deisebydd, a hefyd pam nad yw Llywodraeth Cymru yn casglu nac yn cadw data ar symudiadau disgyblion dros ffin Cymru/Lloegr; ac
- anfon manylion y ddeiseb ymlaen at y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) pan gaiff ei gyflwyno, er mwyn iddynt allu ystyried y materion a godwyd.

### 3.2 P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- ysgrifennu eto at CBAC yn gofyn am yr ymateb sydd heb gyrraedd ynghylch gohebiaeth flaenorol;
- ysgrifennu at CLlLC i ofyn am wybodaeth am sut y mae awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerdd; ac

- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn iddo ymateb i sylwadau pellach y deisebwyr a hefyd y sail dros ei benderfyniad i beidio â defnyddio rhai o'r arian sydd ar gael i ddiogelu darpariaeth gerddoriaeth mewn ysgolion.

### 3.3 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau pellach y deisebydd; a
- gofyn am grynodeb o'r gwaith a wnaed eisoes i lywio ystyriaeth y Pwyllgor nesaf.

### 3.4 P-04-620 Ailgyflwyno'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar Ffordd Osgoi Aberteifi

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor neu ei olynydd am ei phenderfyniad terfynol ar y gorchymyn traffig arfaethedig ac, unwaith y bydd wedi dod i law, gellir cau'r ddeiseb gan ei bod yn nodi diwedd proses statudol.

### 3.5 P-04-617 Stopiwch y Trosglwyddo Dilyffethair o Lyfrgelloedd Cyhoeddus i'r Sector Gwirfoddol

Datganodd William Powell y buddiant a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n un o sylfaenwyr y Grŵp Mynediad Llyfrgelloedd mewn Trefi Bychain.

Trafododd Aelodau ohebiaeth gan y deisebydd, a chan iddynt deimlo na allent wneud rhagor i fynd â'r ddeiseb yn ei blaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.6 P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Aros am ymateb gan y Gweinidog a Chyfoeth Naturiol Cymru;
- Gofyn i'r Pwyllgor Amgylchedd nesaf ystyried y materion a godir gan y ddeiseb, neu, yn dibynnu ar eu hymateb;
- Gofyn i'r Pwyllgor nesaf i ystyried cynnal darn o waith ei hun ar y materion a nodwyd yn y ddeiseb.

### 3.7 P-04-595 Llwybr Foresight

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan y deisebydd, a chan iddynt deimlo na allent wneud rhagor i fynd â'r mater yn ei flaen, cytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.8 P-04-477 Cefnogi'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb gan y deisebydd a Julie Morgan AC, a chytunodd i gadw’r ddeiseb ar agor tan y bydd adolygiad RSPCA ar berchnogaeth cŵn cyfrifol wedi cael ei gyhoeddi.

### 3.9 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- ofyn i’r Pwyllgor Iechyd nesaf ystyried y materion a nodwyd yn y ddeiseb ac i rannu gohebiaeth Byrddau Iechyd gyda nhw ac, yn dibynnu ar eu penderfyniad;
- cynghori’r Pwyllgor Deisebau nesaf gynnal darn byr o waith ar y mater.

### 3.10 P-04-436: Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a chytunodd i ofyn i’r deisebydd am ei sylwadau.